Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Cynllun Strategol

2021-25



# Cynnwys


- 3 Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd
- 6 Ein cenhadaeth
- 7 Ein gwerthoedd
- 8 Themau allweddol
- 13 Blociau adeiladu




# Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

Mae ein myfyrwyr eisiau gwneud iawn am amser coll. Rydyn ni'n teimlo'r un fath. Oherwydd y pandemig, nid yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr Caerdydd yn 2021 wedi treulio llawer o amser yn adeilad UM nac wedi defnyddio ein gwasanaethau. Mae ein strategaeth newydd yn ceisio dychwelyd yn gyflym i lefelau cyn-bandemig o ymgysylltu â myfyrwyr ac yna manteisio ar fuddion ein hamgylchedd Prifysgol newydd a'r adeilad Ganolfan Bywyd Myfyrwyr anhygoel.



Rydym yn lansio ein strategaeth newydd ar yr un pryd ag ailagor yn llawn i fyfyrwyr, ochr yn ochr ag agor y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr ac hyrwyddo ein brand newydd. Mae gennym obeithion uchel am y 4 blynedd nesaf, ond cânt eu siapio gan effaith y pandemig ar ein gallu a'n hadnoddau. Collasom gof sefydliadol; rydym yn delio â chyfyngiadau pellter cymdeithasol cyfredol a chyfnewidiol; ac mae ein cyllid wedi cael ei gytogi'n fawr.

# Mae ein strategaeth yn adlewyrchu cyffro ein myfyrwyr a'r optimistiaeth sydd gennym am ein hamgylchedd newydd.



Er ein bod yn anelu at ragori ar lefelau cyn-bandemig o ymgysylltiad, boddhad, incwm a chanlyniadau, nid ydym yn eu cyflawni i gyd yn gyflym. Byddwn yn cychwyn ar y siwrnai hon gyda'r ddealltwriaeth bod angen i ni weithio gyda'n myfyrwyr a'r Brifysgol, bod yn oddefgar o unrhyw betruster, blaenoriaethu cael pethau'n iawn cyn eu gwneud yn gyflym a chydag iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr a'n staff wrth wraidd ein cynlluniau.

**The heart of Cardiff student life**
**Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd**

# Ein cenhadaeth

Rydyn ni wrth galon bywyd myfyrwyr Caerdydd. Mae hynny'n golygu ein bod ni yma i gefnogi myfyrwyr i ffynnu ac i'w cefnogi pan ni fydd pethau yn mynd fel y disgwyl. Rydyn ni'n sefydliad diogel, cynhwysol lle gall myfyrwyr mynegi eu hunain fel y dymunant.



# Ein gwerthoedd

1. **Arweinyddiaeth myfyrwyr -** byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws y sefydliad ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ysgogi newid.
2. **Cynhwysiant -** rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n holl aelodau, trwy leihau rhwystrau i gyfranogi ac estyn allan i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
3. **Partneriaeth -** byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol -Prifysgol Caerdydd, y gymuned ehangach a sector Undeb y Myfyrwyr.
4. **Amrywiaeth -** byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff a'n myfyrwyr, ac yn cefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid wrth herio



THEMAU ALLWEDDOL

# Cymuned Caerdydd

Byddwn yn grymuso myfyrwyr i arwain a datblygu cyfleoedd i adeiladu eu cymunedau, gan flaenoriaethu gweithgareddau sy'n hybu amrywiaeth.

1. Byddwn yn sicrhau bod ein cymunedau myfyrwyr yn grwpiau positif, yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau cydfyfyrwyr a'r gymuned ehangach.
2. Byddwn yn darparu cefnogaeth i fyfyrwyr sydd am lansio phrosiectau, mentrau a syniadau newydd, gan eu cefnogi i gyflawni eu nodau.
3. Byddwn yn cynnwys mwy o fyfyrwyr yn y gweithgareddau rydyn ni'n eu cefnogi, gan leihau rhwystrau i ymuno ac ystyried dulliau newydd o gefnogi gweithgareddau myfyrwyr.
4. Byddwn yn croesawu defnydd o dechnoleg er budd ein cymunedau a'u galluogi i gyrraedd a chysylltu â myfyrwyr.



**THEMAU ALLWEDDOL**

# Bywyd Academaidd



Byddwn yn cefnogi myfyrwyr ym mhob agwedd o'u bywyd academaidd, gan eu grymuso i gynllunio'u haddysg a darparu cefnogaeth pe bai pethau'n mynd o le.

1. Byddwn yn arbenigwyr ym mywydau ein myfyrwyr, gan ddeall sut brofiad yw eu cyfnodau yn y Brifysgol.
2. Byddwn yn helpu myfyrwyr i gyflawni'r newid y maent yn dymuno, gan eu grymuso i ymfalchio yn eu profiad a sicrhau newid cadarnhaol.
3. Byddwn yn ceisio datblygu cymunedau academaidd ar y campws, gan ddod â myfyrwyr gyda'i gilydd i gael cefnogaeth ac i wella'u profiad dysgu.
4. Byddwn yn sicrhau bod ein cynrychiolwyr myfyrwyr yn weladwy ar draws y campws ac yn cael eu cydnabod gan fwy o fyfyrwyr nag erioed. Hoffwn pe bai'r cynrychiolwyr yn cael eu gweld gan y Brifysgol a'r gymuned ehangach fel asiantau ar gyfer newid cadarnhaol.

THEMAU ALLWEDDOL

# Bywyd Academaidd



THEMAU ALLWEDDOL

# Profiadau myfyrwyr

Byddwn yn cynnal digwyddiadau a chynnig gwasanaethau gwych i bob myfyriwr gan ganolbwyntio ar arallgyfeirio ein cynnig cymdeithasol a hybu cyfleoedd hwyl trwy gydol y dydd a'r nos.

1. Byddwn yn cynnig offrwm cymdeithasol amrywiol i fyfyrwyr, rhoi gwell cefnogaeth i grwpiau myfyrwyr ar draws ein cyfleusterau ac mynd ati i estyn allan i gynulleidfaoedd amrywiol.
2. Byddwn yn buddsoddi mewn a rhedeg gwasanaethau sy'n darparu budd uniongyrchol i fyfyrwyr a fydd yn ei dro yn ariannu ein gweithgareddau anfasnachol.
3. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr wrth wraidd ein penderfyniadau ar draws ein holl wasanaethau masnachol, byddwn yn gwirio hyn trwy gynnig prosesau adborth trylwyr.
4. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n adeiladau, gwella gweithgareddau cymdeithasol yn ystod y dydd a chynyddu ein cynnig y tu allan i'r siwrnai draddodiadol i sicrhau bod pob myfyriwr yn elwa o'n gwasanaethau.



**THEMAU ALLWEDDOL**

# Lles a'r dyfodol

Byddwn yn gwrando'n astud ar yr hyn mae myfyrwyr angen ac fe fyddwn yn eu cefnogi trwy gydol eu siwrne yn y brifysgol. Bydd ein gweithgareddau yn grymuso myfyrwyr i edrych ar ôl llesiant eu hunain a'u cydfyfyrwyr, a byddant yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a'r gwytnwch sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i'w lle yn y byd.

1. Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall cylch bywyd myfyrwyr ac yn medru rhagweld cyfnodau caled, gan gefnogi pawb i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles.
2. Byddwn yn estyn allan i sicrhau ein bod yn deall anghenion myfyrwyr sy'n astudio neu'n ymgymryd â lleoliadau tu hwnt i'r campws.
3. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol a phartneriaid allanol i sicrhau y gall myfyrwyr deimlo'n ddiogel ar ein campws - gan herio materion diogelwch ac aflonyddu.
4. Byddwn yn rhoi cyfle i bob myfyriwr, gan gynnwys y myfyrwyr hynny sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda ni, ddatblygu eu hunain a'u helpu i wneud y gorau o'u hamser yng Nghaerdydd.



**Blociau adeiladu**

# Adnoddau

Erbyn 2024, byddwn wedi ailgyflenwi ein cronfeydd ariannol a ac yn ffocysu ar ein cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir. Bydd hyn yn caniatáu buddsoddiad priodol yn ein seilwaith i gefnogi amcanion strategol yr Undeb...Gan:

1. Gynhyrchu gwargedion o leiaf £200,000/bl y flwyddyn ganlynol.
2. Greu ardaloedd gwych sy'n darparu lle hwyl a bywiog i'n myfyrwyr gwrdd a chymdeithasu.
3. Archwilio cyfleoedd i arallgyfeirio ein ffrydiau incwm.
4. Weithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod gennym gefnogaeth ariannol.



Blociau adeiladu

# Pobl



Erbyn 2024 bydd gennym dîm grymus, ymgysylltiedig ac hafal o staff a gwirfoddolwyr, sy'n cael eu gyrru gan yr awydd i ddatblygu eu hunain a'n sefydliad hyd gorau eu gallu. Byddwn yn teimlo ac yn gweithio fel un tîm. Gan:

1. Gweithredu mantra "un tîm" ymysg ein gwirfoddolwyr, staff myfyrwyr a staff eraill.
2. Fuddsoddi mewn seilwaith digidol i wella ein prosesau AD.
3. Gynyddu cymhelliant gweithwyr trwy wella systemau rheoli perfformiad gydag aliniad strategol clir.
4. Werthfawrogi a gwobrwyo gweithwyr gyda â phecyn budd-daliadau a chymorth gweithwyr cystadleuol.

**Weithredu mantra "un tîm"**

**Blociau adeiladu**

# Digidol a data

Erbyn 2024, byddwn yn defnyddio data i yrru'r broses o wneud penderfyniadau ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod gwybodaeth o ymrwymiadau myfyrwyr, adborth myfyrwyr a dadansoddeg yn llywio gwelliannau. Gan:

1. Wneud gwell ddefnydd o'r holl ddata a gesglir ar draws y sefydliad trwy gyflwyno prosesau dadansoddol newydd.
2. Greu cyfathrebiadau digidol perthnasol ac effeithiol, gan gynnwys cynlluniau a gwobrau teyrngarwch.
3. Fuddsoddi mewn gwefan newydd a systemau mewnol sy'n ei gwneud yn haws ymgysylltu â myfyrwyr.
4. Gynyddu cymwyseddau digidol yr holl staff



cardiffstudents

The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd